# PWYLLGOR APELAU

Dydd Gwener, 17 Mehefin 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Chair)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.P. Jenkins, B.A.L. Roberts, S.E. Thomas a/ac J. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
J Stuart, Principal HR Officer
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell 1, Neuadd y Dref, Llanelli - 9.45 am - 2.54 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd W.G. Hopkins.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 3. DDIM I'W GYHOEDDI

**PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 na fyddai'r cyhoedd yn cael aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd hynny ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007), sef gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddadlennu enw unigolyn.**

## 4. YSTRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN Y CYMUNEDAU

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 3 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig a fyddai'n debygol o ddadlennu enw unigolyn.**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998. Nid oedd y pwnc oedd i'w ystyried gan y Pwyllgor yn fater sydd er budd y cyhoedd. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Ar ôl cloriannu'r mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r apelydd a'r cynrychiolydd undeb llafur, ynghyd â Swyddog Cyflwyno'r Ymchwiliad a chynrychiolydd Adnoddau Dynol, ac amlinellodd y protocol a ddilynid wrth wrando ar yr apêl (fel y nodir ym mhecyn yr Agenda).

Yr oedd y Pwyllgor wedi gwrando ar dystiolaeth gan y Swyddog Cyflwyno a chan gynrychiolydd undeb llafur yr apelydd.

Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi'r dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd, ac ar ei ran, a chan y Swyddog Ymchwilio,

**PENDERFYNWYD**

**5.1 bod yr apêl yn cael ei gwrthod a bod y penderfyniad i ddiswyddo'r apelydd, a oedd wedi'i ategu mewn llythyr dyddiedig 18 Ebrill 2016 yn dilyn Gwrandawiad Disgyblu Ffurfiol ar 14 Ebrill 2016, yn cael ei gadarnhau;**

5.2 rhoi gwybod i'r apelydd, yn ysgrifenedig, am y rhesymau llawn dros wrthod yr apêl.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**